

31/1/23

Annwyl Gynghorydd Jones,

Diolch i chi am eich adborth ynglŷn â gwasanaethau *Avanti West Coast* yn dilyn cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr.

Rydym yn cydnabod nad yw perfformiad diweddar *Avanti West Coast*, yn benodol o ran lefelau gwasanaeth ar ein lein yn y Gogledd, wedi bodloni disgwyliadau ac ymddiheurwn am yr anghyfleustra a'r amhariad y mae hyn wedi'i achosi i deithwyr. Dros y misoedd diwethaf, ein prif ffocws oedd gwneud popeth o fewn ein gallu i ddychwelyd i ffordd fwy gwydn o weithredu, sy'n darparu mwy o wasanaethau i'n cwsmeriaid a chymunedau ar draws y rhwydwaith. Yn ein hamserlen newydd a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2022 fe wnaethom gynyddu gwasanaethau i saith trên bob awr o Euston gyda newidiadau i batrymau ac amseroedd galw mewn is-orsafoedd. Dyma'r gwelliant a'r newid mwyaf i'r amserlen ar Brif Lein y *West Coast* ers 2008. O ganlyniad, credwn fod ein cwsmeriaid bellach yn dechrau gweld buddion ein gwaith gyda mwy o drenau, mwy o ddibynadwyedd a lefelau llai o wasanaethau yn cael eu canslo. Gwyddwn fod mwy y gallwn ei wneud i ddarparu'r gwasanaeth a ddisgwylir gan ein holl gwsmeriaid ond rydym yn symud i'r cyfeiriad cywir gyda darlun sy'n gwella'n raddol.

Gwyddwn yn benodol y rhoddir gwerth mawr ar wasanaethau *Avanti West Coast* gan gymunedau ar draws Gogledd Cymru ar gyfer y cysylltedd a ddarperir ganddynt rhwng dinasoedd. Er mwyn cefnogi hyn, ym mis Rhagfyr fe wnaethom gynyddu gwasanaethau uniongyrchol rhwng Caerdybi ac Euston i gyfanswm o 10 trên y dydd rhwng dydd Llun a dydd Gwener, gyda gwelliannau ar y penwythnos i ddiwallu'r galw hamdden ar y lein. Rydym yn parhau i weithio ar y cyd â'n holl bartneriaid yng ngogledd Cymru, yn enwedig Trafnidiaeth i Gymru a *Network Rail*, i sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaeth dibynadwy sy'n canolbwyntio ar anghenion ein holl deithwyr yn y dyfodol.

Yn anffodus, mae rhai tocynnau ar gyfer dyddiau Sadwrn a Sul yn y dyfodol wedi bod ar gael ar fyr rybudd yn unig gan fod angen ysgrifennu nifer digynsail o amserlenni penodol i gyfarch gweithredu diwydiannol a gwaith peirianegol, sydd wedi rhoi pwysau ar adnoddau cynllunio trenau yn y diwydiant. Rydym yn ddeall fod hyn yn achosi ansicrwydd ac anghyfleustra mawr i deithwyr ac mae'n ddrwg gennym am hyn. Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn *Network Rail* i gael tocynnau ar werth cyn gynted â phosib ac yn annog teithwyr i gofrestru i dderbyn hysbysiadau am docynnau. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r ORR ac yn rhoi gwybod iddynt. Mae tocynnau penwythnos bellach ar gael hyd at ganol mis Chwefror, a byddwn yn gwerthu tocynnau penwythnos chwe wythnos o flaen llaw erbyn canol mis Mawrth.

Yn ychwanegol at yr uchod, gallaf eich diweddarau fod ein fflyd newydd o drenau Hitachi trydanol a *bi-mode* £350m yn barod i ddechrau gwasanaethu yn 2023 a byddant yn gwasanaethu Lein Arfordir Gogledd Cymru. Bydd y trenau hyn yn ychwanegu mwy o seddi i'r lein - mae gan bob uned 5 car 50 o seddi dosbarth safonol ychwanegol o'i gymharu â *Voyager* - ac maent yn lleihau allyriadau carbon ar draws ein rhwydwaith yn aruthrol. Byddant yn parhau i gael cyhoeddiadau yn yr iaith Gymraeg ac rydym wedi gweithio gydag aelod o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar hyn.

Gobeithiaf fod hyn yn cyfarch y prif bwyntiau a amlinellwyd yn rhybudd y Cyngor sy'n ymwneud ag *Avanti West Coast*. Byddwn yn fwy na bodlon eich cyfarfod i drafod perfformiad ein gwasanaeth mewn mwy o fanylder ac unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi.

Llawer o ddiolch, Nick



Nick Smith

Rheolwr Twf Rhanbarthol - Lerpwl, Manceinion a Chymru

Avanti West Coast, Corporate Affairs Directorate,
6th Floor Rail House, Lord Nelson Street, Liverpool, L1 1JF

M 077956 16958 E nick.smith@avantiwestcoast.co.uk